Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymgynghoriad ar y Cynllun Rheoli Pysgodfa arfaethedig ar gyfer Cregyn y Brenin

Dyddiad: Gorffennaf 2023

© Hawlfraint y Goron 2023

Trwyddedir yr wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded, hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn FMPconsultations@defra.gov.uk

## Cynnwys


Cyflwyniad ....................................................................................................4
Cefndir: Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd....................................................5
  Pam ydym yn cyhoeddi Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd?...........................5
  Beth yw FMPs? ...........................................................................................6
  Sut mae FMPs yn gweithio..........................................................................6
  Dull gweithredu ar gyfer datblygu'r FMPs...................................................8
Crynodeb o'r FMP Cregyn y Brenin ...............................................................9
  Tystiolaeth ................................................................................................10
  Nodau ar gyfer rheoli pysgodfeydd cregyn y brenin ..................................11
  Gweithio tuag at ddull cydreoli..................................................................14
  Rhoi ar waith..............................................................................................15
  Casgliad ....................................................................................................15
Asesiad Amgylcheddol Strategol .................................................................16
  Beth yw'r Adroddiad Amgylcheddol a sut cafodd ei ddatblygu ..................16
  Crynodeb o Adroddiad Amgylcheddol Cregyn y Brenin...............................17
Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ....................................................................18
  Cymru........................................................................................................18
  Lloegr ........................................................................................................18
Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn........................................................19
  Hyd yr ymgynghoriad..................................................................................19
  Ymatebion .................................................................................................19
Gwybodaeth am Gyfrinachedd a Diogelu Data............................................20
Cwestiynau'r Ymgynghoriad ........................................................................21
Ymholiadau...................................................................................................21

# Cyflwyniad

Mae gan y Deyrnas Unedig rai o'r adnoddau bwyd môr gwyllt gorau yn y byd. Mae ein stociau pysgod yn ased cyhoeddus sy'n cynhyrchu bwyd ac yn creu swyddi mewn diwydiant sydd ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth a balchder yn eu cymunedau. Mae'r stociau pysgod hyn yn rhan hanfodol o'n hecosystemau morol hefyd.

Mae llawer o'n stociau pysgod dan bwysau o ganlyniad i bysgota a'r newid yn yr hinsawdd. Gall pysgota hefyd effeithio ar ein hecosystem, er enghraifft drwy sgil-ddalfa ddamweiniol neu drwy effaith offer pysgota ar wely'r môr. Felly, mae'n bwysig ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol pysgota fel rhan o'n gwaith rheoli cyffredinol ar yr amgylchedd morol.

Mae Defra a Llywodraeth Cymru wedi nodi eu cynlluniau ar gyfer diogelu ein hamgylchedd yn y dyfodol. Cyhoeddodd Defra ei Gynllun Gwella Amgylcheddol 2023 sy'n gosod cynllun ar gyfer degawd o gyflawni gyda chamau gweithredu wedi'u harwain gan dargedau, sy'n anelu at adael ein hamgylchedd mewn gwell cyflwr na phan wnaethom ei etifeddu. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n darparu fframwaith iteraidd i sicrhau bod rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae'r angen i fabwysiadu dull newydd, mwy integredig o reoli adnoddau naturiol Cymru er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yn rhan annatod o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru).

Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn nodi sut bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd y DU (Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban) yn paratoi ac yn cyhoeddi 43 o Gynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (FMPs) erbyn 2028. Bydd y cynlluniau'n dwyn ynghyd y dystiolaeth am gyflwr y stociau ac yn nodi'r mesurau a'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i wella'r sylfaen dystiolaeth, ac i reoli ein pysgodfeydd mewn ffordd gynaliadwy. Bydd polisïau mewn Cynllun Rheoli Pysgodfa yn nodi'r camau gweithredu tymor byr a'r weledigaeth tymor hirach ar gyfer rheoli'r bysgodfa. Rhaid i'r cynlluniau hefyd ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol ehangach perthnasol, gan gynnwys yr egwyddorion amgylcheddol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 a'r angen am asesiad amgylcheddol strategol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004.

Mae Defra a Llywodraeth Cymru wedi dysgu gwersi o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac wedi cydnabod awydd cryf y diwydiant pysgota i ysgwyddo rhagor o gyfrifoldeb dros reoli eu pysgodfeydd.

Mae ein dau FMP cyntaf ar y cyd – Cregyn y Brenin a Draenogiaid Môr, wedi cael eu datblygu mewn ymgynghoriad agos â'n Cyrff Hyd Braich, partneriaid cyflawni, pysgotwyr a rhanddeiliaid ehangach.

**Cregyn y Brenin**

Mae'r Cynllun Rheoli Pysgodfa (FMP) arfaethedig ar gyfer Cregyn y Brenin yn cynnwys dyfroedd Cymru a Lloegr.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y canlynol:

- yr FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 1, Rhan 3 o Ddeddf Pysgodfeydd 2020. Cafodd y ddogfen hon ei drafftio mewn partneriaeth â Gweithgor Grŵp Cydgysylltu'r Diwydiant Cregyn Bylchog; a

- Adroddiad Amgylcheddol drafft Cregyn y Brenin sy'n disgrifio effeithiau amgylcheddol tebygol yr FMP, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004. Cafodd y ddogfen hon ei drafftio gan Defra ar y cyd â Llywodraeth Cymru.

Bydd Defra a Llywodraeth Cymru yn paratoi asesiadau o'r effaith economaidd wrth roi'r FMPs ar waith (gweler yr adran Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nes ymlaen). Mae Defra wedi cynhyrchu asesiad effaith rheoleiddiol de minimis lefel uchel i gyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn. Byddem yn croesawu tystiolaeth economaidd ychwanegol i gynhyrchu asesiadau llawn ar gyfer cyhoeddiad yr FMP terfynol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn arbennig o berthnasol i'r canlynol:

- Unigolion, grwpiau neu fusnesau sy'n ymwneud â'r sectorau pysgota, bwyd môr neu ddyframaethu, gan gynnwys unigolion, grwpiau neu fusnesau o'r tu allan i'r DU sy'n pysgota yn nyfroedd y DU;
- Unigolion, grwpiau neu fusnesau eraill sy'n defnyddio'r môr, er enghraifft diwydiannau morol fel ynni adnewyddadwy ar y môr a chyrff hwylio;
- Grwpiau buddiant cenedlaethol a lleol fel cyrff anllywodraethol amgylcheddol a hamdden, a ffederasiynau'r diwydiant.

Cynhelir ymgyngoriadau ar yr FMP arall ar y cyd (gweler uchod) a phedwar FMP arall gan Defra, a'u Hadroddiadau Amgylcheddol, ar yr un pryd.

# Cefndir: Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd

## Pam ydym yn cyhoeddi Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd?

Yn rhyngwladol, ystyrir mai Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd (FMPs) yw'r ffordd orau o reoli pysgodfeydd. Mae gadael yr UE yn golygu nad yw'r DU bellach yn rhwym wrth y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac mae ganddi gyfle i ailystyried y ffordd orau o reoli pysgodfeydd gwerthfawr ac amrywiol y DU. Mae parhau i hybu pysgota cynaliadwy a mabwysiadu mesurau rheoli i ailadeiladu a chynnal stociau yn y tymor hir yn ganolog i'r gwaith rheoli yn y dyfodol. Mae nod 6 y Cynllun Gwella Amgylcheddol hefyd yn nodi pwysigrwydd FMPs i bysgodfeydd yn Lloegr drwy reoli'r gwaith o gynaeafu stociau mewn modd cynaliadwy a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion priodol yn Strategaeth Forol y DU.

Mae cyhoeddi FMPs yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gan eu bod yn darparu dull mwy integredig o reoli ein stociau pysgod er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

Mae'r Papur Gwyn ar Bysgodfeydd, Pysgodfeydd Cynaliadwy ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol, 2018 yn nodi ymrwymiad y DU i ail-siapio'r gwaith o reoli pysgodfeydd ar ôl i ni ymadael â'r UE. Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 (y Ddeddf) yn darparu strwythur cyfreithiol rwymol i ddiogelu ac adfer stociau, i gefnogi diwydiant pysgota cynaliadwy, ac i ddiogelu'r amgylchedd. Mae'n nodi amcanion clir i ddarparu'r sail y bydd awdurdodau polisi pysgodfeydd pob un o bedwar Gweinyddiaeth y DU yn rheoli eu pysgodfeydd yn ei herbyn, ac ymrwymiad i ddatblygu FMPs. Ymhelaethwyd ar yr ymrwymiad hwn yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022 sy'n cynnwys rhestr o 43 FMP, gan nodi'r awdurdod arweiniol, y stociau dan sylw ac amserlen cyhoeddi. Drwy ein hymrwymiad i FMPs yn y Ddeddf, byddwn yn diwygio ac yn ailddiffinio ein gwaith o reoli pysgodfeydd domestig.

## Beth yw FMPs?

Mae Cynllun Rheoli Pysgodfa (FMP) yn gynllun gweithredu seiliedig ar dystiolaeth sy'n nodi'r camau gweithredu tymor byr a'r weledigaeth tymor hirach sydd eu hangen i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob FMP amlinellu polisïau sydd wedi'u cynllunio i adfer y stociau i lefelau cynaliadwy, neu i'w cadw ar lefelau cynaliadwy. Bydd pob cynllun yn nodi gweledigaeth a nodau ar gyfer y pysgodfeydd targed, ynghyd â'r polisïau a'r ymyriadau rheoli sy'n angenrheidiol i gyflawni'r nodau hyn yn y tymor byr. Bydd y cynlluniau'n berthnasol i bawb sy'n dal pysgod yn y stociau targed, a hynny yn y sectorau masnachol neu hamdden. Wedi'i ddatblygu mewn ffordd gydweithredol a thryloyw, y nod yw sicrhau bod FMPs yn berthnasol i'r bysgodfa neu'r pysgodfeydd, ac yn cefnogi dull mwy ymarferol a hyblyg o reoli pysgodfeydd wedi'i deilwra i rywogaethau, lleoliadau a gweithgareddau pysgota.

Gall FMPs hefyd fynd i'r afael â materion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ehangach a, lle bo hynny'n briodol, gallant gynnwys elfennau sy'n mynd y tu hwnt i ofynion statudol y Ddeddf. Mae'r Cynllun Gwella Amgylcheddol yn nodi y bydd y cynlluniau hyn yn hybu detholedd, yn lleihau effeithiau negyddol ar yr ecosystem, ac yn helpu i adfer stociau. Yng Nghymru, bydd y cynlluniau'n helpu i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Sut mae FMPs yn gweithio

Bydd pob FMP yn amlinellu nodau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy. Bydd y dull gweithredu sydd ei angen yn dibynnu ar y nodau sy'n cael eu hamlinellu ym mhob cynllun, lefel ein dealltwriaeth a'n tystiolaeth, yn ogystal â natur y stociau a'r pysgodfeydd. Er y bydd pob FMP yn canolbwyntio ar stociau penodol, bydd hefyd yn bwysig sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd ac yn cydnabod anghenion rheoli pysgotwyr, neu randdeiliaid sy'n pysgota stociau sy'n cael sylw mewn mwy nag un

FMP. Er mwyn cael effaith ar sut mae pysgodfeydd yn cael eu rheoli, bydd angen rhoi'r FMPs ar waith.

Mae pysgodfeydd yn gymhwysedd datganoledig, sy'n cael ei reoli ar hyn o bryd gan bob gweinyddiaeth drwy gyfuniad o reoleiddio (Cyfraith yr UE a ddargedwir, a chyfraith ddomestig gan gynnwys offerynnau statudol), is-ddeddfau, amodau trwydded a mesurau gwirfoddol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y fframwaith rheoli hwn yn dal yn briodol, am y tro o leiaf. Mewn achosion eraill, efallai y bydd angen i'r drefn reoli newid. Gallai hyn olygu y bydd angen newid y gyfraith, yr is-ddeddfau neu amodau'r drwydded. Neu mewn rhai achosion, bydd angen cyflwyno mesurau rheoli newydd, naill ai drwy'r gyfraith, is-ddeddfau, amodau trwydded neu fesurau gwirfoddol. Lle bo'n briodol, bydd cynhelir trafodaethau ac ymgyngoriadau penodol ar fesurau i roi camau gweithredu'r FMPs ar waith.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Awdurdodau Pysgodfeydd Cenedlaethol (Defra a'r Sefydliad Rheoli Morol ar gyfer Lloegr, Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru) weithredu'n unol â'r polisïau a nodir yn y cynlluniau. Er nad yw Awdurdodau Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau o amgylch Lloegr yn awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol at ddibenion y Ddeddf, byddant yn cydweithio ar y gweithredu ac efallai y byddant yn rhwym wrth unrhyw ddeddfwriaeth a fabwysiedir i roi'r cynlluniau ar waith os yw'n cynnwys eu hawdurdodaeth.

Un o nodweddion allweddol FMPs yw bod modd eu haddasu. Bydd y camau gweithredu sy'n ofynnol i roi'r FMPs ar waith, ac yn wir yr FMPs eu hunain, yn ailadrodd ac yn adeiladu dros amser; mae hyn yn arbennig o bwysig lle mae angen inni gasglu tystiolaeth ychwanegol i lywio'r gwaith o ddatblygu mesurau rheoli. Mae pob un o'r FMPs drafft yn nodi ystod o gamau gweithredu tymor byr a thymor hirach. Felly, bydd rhaglen dreigl o weithredu yn ystod oes yr FMPs. Bydd yn cymryd peth amser i weld manteision o ran gwella cynaliadwyedd stociau a physgodfeydd sy'n cael sylw yn yr FMPs.

Rhaid adolygu pob FMP o fewn chwe blynedd i'w gyhoeddi, neu'n gynt os oes angen. Hefyd gellir disodli neu ddiwygio FMP ar unrhyw adeg yn dilyn ymgynghoriad. Mae'r prosesau hyn yn ei gwneud yn bosibl diweddaru ac addasu'r cynllun wrth i wybodaeth a thystiolaeth wella, wrth i fesurau rheoli ddod i rym, ac wrth i bethau newid.

Rydym yn awyddus i barhau â'r dull cydweithredol a thryloyw a ddefnyddiwyd i ddatblygu FMPs yn ystod y camau gweithredu ac adolygu. Rydym yn awyddus i glywed gan bysgotwyr a rhanddeiliaid ynghylch sut i sicrhau cyfranogiad llwyddiannus mewn FMPs yn y dyfodol drwy'r ymgynghoriad hwn.

## FMPs a Gwladwriaethau arfordirol eraill

Er bod gan y DU, fel Gwladwriaeth arfordirol annibynnol, ymreolaeth reoleiddiol i reoli ein pysgodfeydd, mae'r DU wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid sy'n Wladwriaethau arfordirol eraill i sicrhau bod adnoddau pysgodfeydd a rennir yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Cafodd yr ymrwymiad hwn ei gadarnhau yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Drwy ymgyngoriadau pysgodfeydd blynyddol â'r UE a Gwladwriaethau arfordirol eraill, a

thrafodaethau mewn fforymau amlochrog a dwyochrog eraill, fel sefydliadau rheoli pysgodfeydd rhanbarthol neu'r Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd a sefydlwyd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu gyda'r UE, bydd y DU yn mynd ati i gyflawni neu gyfrannu at gyflawni'r amcanion o ran pysgodfeydd yn y Ddeddf.

Bydd ein FMPs yn amlinellu fframwaith hirdymor o bolisïau a mesurau i reoli gweithgarwch pysgota er mwyn sicrhau cynaliadwyedd stociau, ac amgylchedd morol iach. Lle bo'n briodol, bydd hyn yn sail i'r dull gweithredu ar gyfer datblygu strategaethau aml-flwyddyn ar gyfer cadw a rheoli stociau a gynigir gan y DU a'r UE o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac unrhyw gynlluniau hirdymor tebyg gyda Gwladwriaethau arfordirol eraill. Mae'n bosibl y bydd ein FMPs hefyd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw gytundebau sy'n cael eu negodi yn y strategaethau rhyngwladol hyn.

Bydd yr holl fesurau rheoleiddio i roi'r FMPs ar waith yn rhwymo'r holl gychod sy'n pysgota yn nyfroedd y DU. O dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, rhaid i unrhyw fesurau sydd i'w cymhwyso i gychod yr UE sy'n pysgota yn nyfroedd y DU fod yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a'u cymhwyso i longau'r UE a'r DU. Hefyd, rhaid i'r DU roi gwybod yn ffurfiol i'r UE am unrhyw newidiadau i fesurau rheoli pysgodfeydd sy'n debygol o effeithio ar gychod yr UE. Bydd Defra hefyd yn sicrhau bod Gwladwriaethau eraill y bydd mesurau a gyflwynir drwy'r FMPs yn effeithio arnynt yn cael eu hysbysu'n briodol.

## Dull gweithredu ar gyfer datblygu'r FMPs

Roedd gweinyddiaethau'r DU wedi casglu tystiolaeth a chyfarfod â rhanddeiliaid pysgota a rhanddeiliaid eraill yn 2020 i ystyried pa stociau a physgodfeydd y dylid eu blaenoriaethu yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Cytunodd Defra a Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu FMPs ar y cyd ar gyfer Cregyn y Brenin a Draenogiaid Môr, i'w cyhoeddi yn 2023.

Mae Cregyn y Brenin yn Stoc Ddi-gwota, heb fod yn ddarostyngedig i Ddalfa Fwyaf a Ganiateir. Mae Stociau Di-gwota yn aml yn rhywogaethau gwerthfawr iawn, agored i niwed o bosibl, sy'n gyfyngedig o ran data. Cyfyngedig yw'r data sydd gennym ar Stociau Di-gwota, a rheolaeth gyfyngedig, felly nid ydym yn gallu asesu'n gywir lefelau iechyd a chynaliadwyedd yr holl Stociau Di-gwota sy'n cael eu targedu yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Mae'r Ddeddf yn nodi'r amcan rhagofalus lle nad yw absenoldeb gwybodaeth wyddonol ddigonol yn cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau gohirio neu fethu cymryd mesurau rheoli i warchod rhywogaethau targed, rhywogaethau cysylltiedig neu ddibynnol, rhywogaethau nad ydynt yn rhai targed, neu eu hamgylchedd.

Yn bwysig, mae'r diwydiant pysgota wedi cydnabod y materion hyn hefyd ac wedi bod yn awyddus i roi gwell prosesau rheoli ar waith i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y stociau. Un o'r prif geisiadau gan y diwydiant pysgota ar ôl ymadael â'r UE oedd gweithio'n agosach gyda phrosesau rheoli pysgodfeydd gyda'r bwriad o symud dros amser i "gydreoli". Bydd yn cymryd peth amser i'r llywodraeth, rheoleiddwyr, pysgotwyr a rhanddeiliaid ehangach addasu i alluogi cydreoli, sy'n golygu ysgwyddo cyfrifoldeb ar y cyd dros osod nodau a chyflawni camau gweithredu.

Cafodd yr uchelgais ar gyfer gweithio'n agosach mewn partneriaeth ei chydnabod yn y Papur Gwyn ar Bysgodfeydd yn 2018, ac yn dilyn hynny roedd y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn nodi'r weledigaeth y dylai'r diwydiant chwarae mwy o ran yn y gwaith o reoli pysgodfeydd. Er mwyn cefnogi'r uchelgais hon a chydnabod nad oes glasbrint ar gyfer datblygu FMPs, yn enwedig ar gyfer pysgodfeydd mor gymhleth ag y rhai sy'n bodoli ledled y DU, mae ein FMPs wedi treialu dulliau gwahanol. Mae amrywiaeth o sefydliadau a grwpiau wedi arwain y gwaith o ddatblygu'r FMPs cyntaf, gan fabwysiadu gwahanol ddulliau o ymgysylltu'n ehangach wrth eu datblygu. O ganlyniad, er bod pob FMP wedi'i gynllunio i fodloni'r gofynion cyfreithiol a nodir yn y Ddeddf, mae pob un yn edrych yn wahanol. Rydym yn ceisio adborth drwy'r ymgynghoriad hwn ar y gwahanol brosesau ymgysylltu i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r rhain a chynlluniau eraill mewn camau yn y dyfodol, a'n polisi yn y dyfodol.

I gefnogi'r gwaith o ddatblygu FMPs, mae safbwyntiau'r diwydiant a phartïon eraill sydd â buddiant wedi cael eu casglu drwy gyfres o ymweliadau arfordirol, cyfarfodydd ac ymgysylltu ar-lein. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i ddylanwadu ar gynnwys yr FMPs ac i nodi'r camau gweithredu a'r mesurau sydd â'r mwyaf o gefnogaeth, yn ogystal â nodi'r rhai y gellir eu datblygu'n gyflym a'r rhai y mae angen eu hystyried ymhellach. Mae'r ymgynghoriad yn gyfle i geisio safbwyntiau ehangach ar allbwn y broses hon. Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio i ddylanwadu ar unrhyw newidiadau i'r FMPs drafft cyn cyhoeddi'r cynlluniau terfynol.

# Crynodeb o'r FMP Cregyn y Brenin

Mae cregyn y brenin wedi cael ei blaenoriaethu oherwydd bod y stoc yn agored i orecsbloetiaeth, gwerth economaidd y bysgodfa, a diffyg tystiolaeth i asesu a monitro cyflwr y stoc yn iawn.

Mae pysgodfeydd cregyn y brenin o amgylch arfordir Cymru a Lloegr yn rhywogaeth fasnachol werthfawr. O ran gwerth, mae'n cyfrif am 12% o'r holl fwyd môr sy'n cael ei ddal yn y dyfroedd hyn. Er bod asesiadau stoc yn cael eu cynnal ar gyfer stociau cregyn y brenin i asesu biomas y gellir ei gynaeafu a chyfradd ecsbloetio cregyn y brenin y gellir eu cynaeafu, dim ond ers 2016 mae hynny'n digwydd. Mae hyn yn golygu bod cregyn y brenin yn stoc cyfyngedig o ran data ac mae angen rhagor o wybodaeth a data i ategu'r asesiadau stoc presennol. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl cael amcangyfrifon cywir o'r biomas sydd ar gael y gellir ei dynnu'n gynaliadwy o'r bysgodfa.

Mae'r FMP Cregyn y Brenin yn disgrifio mesurau rheoli sy'n bodoli eisoes a'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i asesu statws stociau cregyn y brenin yng Nghymru a Lloegr yn 2023. Mae'r cynllun yn amlinellu'r nod i sicrhau bod ecsbloetio stociau cregyn y brenin yn adfer ac yn cynnal poblogaethau o gregyn y brenin wedi'u cynaeafu uwchlaw lefelau biomas sy'n gallu cynhyrchu'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf. Mae'r FMP yn tynnu sylw at fylchau o ran gwybodaeth a thystiolaeth er mwyn gallu sefydlu pysgodfeydd cynaliadwy. Mae'r amcanion rheoli a'r cynllun tystiolaeth ac ymchwil cysylltiedig yn nodi camau gweithredu i lenwi'r bylchau hynny dros amser. Nod yr ymyriadau rheoli arfaethedig yw

defnyddio dull rhagofalus o reoli cynaeafu wrth i'r dystiolaeth wella. Bydd yr FMP hwn ar gyfer cregyn y brenin yn arwain at newid sylweddol o ran ein symud tuag at reoli pysgodfeydd cregyn y brenin yn gynaliadwy yn yr hirdymor yn nyfroedd Cymru a Lloegr.

Mae'r FMP Cregyn y Brenin yn gynllun rheoli hirdymor ar gyfer pysgodfeydd yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Pwrpas yr FMP yw rheoli gweithgarwch pysgota o fewn terfynau cynaliadwy, gan amlinellu'r polisïau a'r mesurau sy'n ofynnol i gyflawni a chynnal ein nod o bysgodfa cregyn y brenin gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae adborth o'r gwaith ymgysylltu â'r diwydiant wedi dangos bod angen rheoli'r bysgodfa cregyn y brenin yn well yng Nghymru a Lloegr. Mae'r FMP yn casglu ynghyd y dystiolaeth i asesu statws stociau a'r bysgodfa cregyn y brenin ledled Cymru a Lloegr, yn nodi mesurau rheoli sy'n bodoli eisoes, ac yn nodi camau tymor byr a thymor hir i reoli'r bysgodfa cregyn y brenin.

Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Gweithgor Grŵp Ymgynghori'r Diwydiant Cregyn Bylchog drwy ddull cydweithredol sy'n dod â diwydiant, llywodraeth a gwyddonwyr at ei gilydd. Roedd Seafish wedi helpu'r Gweithgor i gynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid o amgylch yr arfordir, a oedd yn ceisio safbwyntiau ehangach rhanddeiliaid i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r FMP. Wedyn cyflwynwyd yr FMP drafft i Defra a Llywodraeth Cymru i'w adolygu.

**Oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses o ddatblygu'r FMP Cregyn y Brenin?**

## Tystiolaeth

Mae'r FMP hwn ar gyfer cregyn y brenin (pecten maximus) yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Mae'r ymdrech bysgota ddomestig ar gyfer cregyn y brenin wedi cynyddu'n sylweddol ers 2016. Roedd cyfanswm glaniadau cregyn y brenin o ddyfroedd yr FMP gan gychod y DU neu Diriogaethau Dibynnol y Goron wedi cynyddu 66% rhwng 2016 (9,357 tunnell ar werth o £21.3m) a 2021 (15,504 tunnell ar werth o £26.4m). Yn yr un modd, mae mwy o laniadau i'w gweld gan gychod yr UE o ddyfroedd yr FMP gyda chynnydd o 31% rhwng 2016 (2,686 tunnell ar werth o £8.1m) a 2021 (3,512 tunnell ar werth o £10.9m)[1].

Mae'r cynnydd yn y glaniadau cregyn y brenin yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi codi pryderon ynghylch cynaliadwyedd y pysgodfeydd. Ers 2016, mae asesiadau stoc wedi cael eu cynnal ar gyfer stociau cregyn y brenin i asesu biomas y gellir ei gynaeafu a chyfradd ecsbloetio cregyn y brenin y gellir eu cynaeafu.

Er gwaethaf yr asesiadau stoc blynyddol hyn, mae data a thystiolaeth ar gyfer y bysgodfa cregyn y brenin yn bodoli mewn ffordd dameidiog sy'n gwneud y bysgodfa'n agored i niwed, gyda risgiau ymhlyg o or-ecsbloetio a bylchau yn y ddealltwriaeth o rai o'r effeithiau ar yr amgylchedd morol ehangach. Mae angen gwell dealltwriaeth o gyflenwad a statws

[1] Adroddiad ystadegau blynyddol pysgodfeydd môr y DU 2021 - GOV.UK (www.gov.uk)

iechyd y stoc ar hyn o bryd er mwyn cyflawni'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf a chynnal y nod hwn.

**Beth yw eich barn ar y dystiolaeth a gyflwynwyd am gyflwr presennol stociau cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr, ac a allwch ddarparu unrhyw dystiolaeth arall sy'n cefnogi neu'n wahanol i'n tystiolaeth ni?**

## Nodau ar gyfer rheoli pysgodfeydd cregyn y brenin

Mae cregyn y brenin yn stociau di-gwota ac felly nid ydynt yn ddarostyngedig i derfynau dalfa ar hyn o bryd. Mae gan y sector cregyn bylchog rywfaint o fesurau rheoli ar waith ar hyn o bryd i ddiogelu'r stoc. Mae'r mesurau hyn wedi'u datganoli yn y DU ac mae'r mesurau rheoli sydd ar waith yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd yn cael eu gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol drwy ddeddfwriaeth, amodau trwyddedau pysgota ac is-ddeddfau. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys manylebau technegol o'r offer a ddefnyddir, Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf, trwyddedau sydd eu hangen i bysgota am gregyn bylchog, a chau'r dyfroedd yn dymhorol i warchod stociau silio. Hefyd mae terfynau diwrnodau ar y môr sy'n cyfyngu ar gychod 15m a mwy o hyd sy'n pysgota mewn rhai ardaloedd, y cyfeirir atynt fel gweithdrefn ymdrech y Dyfroedd Gorllewinol (Rheoliad UE a ddargedwir 1954/2003 ar reoli'r ymdrech bysgota sy'n ymwneud ag ardaloedd ac adnoddau pysgota cymunedol penodol). Mae'r rhan fwyaf o gregyn y brenin yn cael eu targedu gan ddefnyddio llusgrwydi sbring-lwythog sy'n cael eu tynnu ar hyd gwely'r môr; mae dulliau pysgota eraill yn cynnwys deifio â llaw a threillio â thrawstiau.

Mae'r FMP hwn yn nodi cyfres o amcanion penodol i fynd i'r afael â gofynion casglu, asesu a rheoli data'r bysgodfa. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys, lle bo'n berthnasol, effeithiau ar rywogaethau cyfyngedig o ran data. Maen nhw hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â physgota cregyn y brenin yn cael eu deall a lle credir bod dulliau pysgota cregyn y brenin yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd morol, cymerir camau i osgoi, i unioni neu i liniaru effaith o'r fath.

Gan mai un o nodweddion y bysgodfa cregyn y brenin yw amrywiadau yn y fflyd, nid yw dull 'un ateb i bawb' yn briodol. Mae angen dull rheoli rhanbarthol/lleol ynghyd â gwell data rhywogaethau a physgodfeydd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor pysgodfeydd cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Un egwyddor graidd a fydd yn sbarduno'r gwaith o weithredu amcanion yr FMP fydd rheoli addasol er mwyn adlewyrchu, wrth i'r sylfaen dystiolaeth wella, y bydd ymyriadau rheoli yn fwy ymatebol. Ochr yn ochr â gwella'r sylfaen dystiolaeth, mae'r FMP yn mynd ati i bennu camau gweithredu tymor byr clir a nodi meysydd ar gyfer gwaith tymor hirach y gellir eu datblygu drwy fersiynau nesaf yr FMP.

### Beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Mae'r tabl yn yr FMP yn nodi'r amcanion ar gyfer rheoli'r bysgodfa cregyn y brenin a'r mesurau rheoli tymor byr a thymor hirach arfaethedig.

Mae'r FMP yn nodi mesurau blaenoriaeth ar gyfer datblygu a gweithredu yn y tymor byr tra bo'r sylfaen dystiolaeth yn gwella. Mae'r cynigion hyn wedi cael eu blaenoriaethu ar sail tystiolaeth bresennol a chefnogaeth rhanddeiliaid. Y cynnig cyntaf yw mynd ar drywydd

cyfleoedd i gryfhau mesurau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys ymestyn cwmpas cau dyfroedd yn dymhorol ac ar sail ardaloedd i ddiogelu anifeiliaid sy'n silio. Mae'r ail gynnig yn mynd ar drywydd cyfleoedd i gysoni mesurau, fel gofynion offer, lle mae manteision amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd i wneud hynny. Byddai'r mesurau hyn yn helpu i roi mwy o ddiogelwch i stociau yn unol â'r egwyddor ragofalus tra bo'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer stociau cregyn y brenin yn parhau i ddatblygu. Bydd y sylfaen dystiolaeth gryfach hon yn sail i fesurau rheoli yn y dyfodol ac yn eu cefnogi, gan sicrhau bod mesurau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yn cael eu defnyddio ar y lefel fwyaf priodol. Ochr yn ochr â hyn, bydd dulliau rheoli tymor hirach yn cael eu datblygu drwy ystyried manteision ac anfanteision mesurau rheoli allbwn a mewnbwn sy'n seiliedig ar wyddoniaeth i gefnogi pysgota cynaliadwy, a fydd wedyn yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar ymgyngoriadau ar gynigion ar gyfer gweithredu mesurau rheoli newydd ar gyfer pysgodfeydd cregyn y brenin.

Fel canllaw, disgwylir i gamau gweithredu a nodir fel rhai tymor byr gael eu cyflawni un i ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r cynllun, rhai tymor canolig yn y tair i bum mlynedd nesaf, a rhai tymor hir mewn pum mlynedd neu fwy i adlewyrchu'r gwaith mwy cymhleth sydd ei angen i'w datblygu.

Felly, rydym yn ceisio safbwyntiau yn bennaf ar yr egwyddor o archwilio rheoli ar sail ardaloedd a chysoni mesurau'n fras fel camau blaenoriaeth tymor byr, ac ar y bwriad i ddatblygu mesurau rheoli allbwn a mewnbwn fel nod tymor hir.

Mae'r FMP yn nodi'r manylion a'r cyfiawnhad canlynol dros y camau gweithredu arfaethedig:

### A. Gwella'r sylfaen dystiolaeth:

Ar hyn o bryd, mae stociau cregyn y brenin yn cael eu hystyried fel rhai cyfyngedig o ran data oherwydd nad oes gennym y wybodaeth wyddonol i asesu cyflwr y stoc yn gywir. Mae angen gwneud gwaith i wella'r system casglu data er mwyn gallu asesu'n well ecsbloetiaeth, niferoedd ac iechyd y stociau er mwyn gwneud ymyriadau ar sail gwybodaeth.

I fynd i'r afael â hyn, mae'r FMP yn cynnwys cynllun tystiolaeth ac ymchwil cregyn y brenin. Mae'r cynllun tystiolaeth ac ymchwil yn adeiladu ar yr ymchwil a'r data sy'n bodoli eisoes ar gyfer cregyn y brenin, gan fanylu ar y wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael, a thynnu sylw at fylchau mewn gwybodaeth a thystiolaeth, a beth sydd ei angen i lenwi'r bylchau hynny i ddarparu'r diogelwch angenrheidiol ar gyfer stociau nawr ac yn y dyfodol. Mae'r cynllun yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, fentrau fel parhau i ddatblygu methodolegau asesu stoc, a dangosyddion a phwyntiau cyfeirio ar gyfer unedau stoc. Nod y cynllun ymchwil yw adeiladu ar yr ymchwil a'r data sy'n bodoli eisoes ar gyfer cregyn y brenin er mwyn sicrhau bod y gwaith rheoli'n cael ei lywio gan strategaeth cynaeafu gynhwysfawr, asesiadau dibynadwy o stociau, a rhaglen gyson o gasglu data ac ymchwil.

Gellir darllen y datganiad tystiolaeth llawn a'r cynllun tystiolaeth ac ymchwil yn Atodiadau 1 a 2 yr FMP.

**Beth yw eich barn ar y bylchau yn y dystiolaeth a nodwyd yn yr FMP? Ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu i fynd i'r afael â'r bylchau yn y dystiolaeth?**

### B. Mesurau rheoli cychwynnol

Mae'r FMP yn nodi mesurau a fydd yn cael eu datblygu a'u gweithredu yn y tymor byr tra bo'r sylfaen dystiolaeth yn gwella. Mae'r mesurau hyn wedi cael eu blaenoriaethu ar sail tystiolaeth bresennol a chefnogaeth rhanddeiliaid, a'u nod yw mynd i'r afael â phryderon uniongyrchol o ran cynaliadwyedd yn unol ag amcan rhagofalus Deddf Pysgodfeydd 2020. Mae'r cynigion yn cynnwys mynd ar drywydd cyfleoedd i gryfhau mesurau sy'n bodoli eisoes, fel ymestyn cwmpas cau dyfroedd yn dymhorol ac ar sail ardaloedd i ddiogelu anifeiliaid sy'n silio. Ers 2013, mae dyfroedd wedi'u cau'n dymhorol yn ardal ICES 7d yn Lloegr i leihau'r pwysau ar stociau yn ystod y tymor silio, gan ganiatáu i gregyn bylchog ifanc dyfu i faint silio a Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf cyn dod ar draws offer pysgota cregyn bylchog.

Bydd angen adolygu'r posibilrwydd o gau dyfroedd yn y dyfodol yn rheolaidd i sicrhau bod y mesur yn dal yn effeithiol a bod modd ei ddefnyddio'n hyblyg i roi cyfrif am statws stociau, amseroedd silio, a ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad pysgota a lefelau gweithgarwch, fel newidiadau posibl i amseroedd a hyd cau.

**Pa rôl all cau ar sail ardaloedd ei chwarae o ran cyflawni cynaliadwyedd stociau a nodau'r FMP yn effeithiol o dan y fframwaith rheoli newydd arfaethedig (o ran ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol)?**

**A oes ardaloedd stociau penodol lle gall cau fod yn fuddiol (er enghraifft, i ddiogelu stoc silio a/neu wely'r môr yn ystod setliad silod) neu'n niweidiol i nodau'r FMP yn eich barn chi?**

Mae ail gynnig yn mynd ar drywydd cyfleoedd i gysoni mesurau, fel gofynion offer, lle bo hynny'n briodol a bod manteision amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd i wneud hynny. Gall cysoni mesurau osgoi gwahaniaethau diangen mewn mesurau ar draws ffiniau rheoli gweinyddol, gan ddiogelu stociau ar yr un pryd. Er mwyn cysoni mesurau rheoli yn effeithiol, mae angen adolygu'r mesurau sy'n bodoli eisoes ar draws pob maes.

**Ble ydych chi'n gweld cyfleoedd i gryfhau'r mesurau sy'n bodoli eisoes i sicrhau eu bod yn addas i'r diben er mwyn cael stociau cynaliadwy stoc a chyflawni nodau'r FMP o dan y fframwaith rheoli newydd arfaethedig (yng nghyd-destun ffactorau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol)?**

### C. Mesurau rheoli tymor hirach

Dros amser, wrth i’r sylfaen dystiolaeth a’r gwaith o fonitro effeithiolrwydd mesurau rheoli wella, bydd y broses o roi mesurau mwy penodol ar waith yn ddiweddarach yn y cylch FMP hwn, neu drwy fersiynau yn y dyfodol, yn dod yn symlach. Mae’r FMP hwn yn cynnig dull rheoli addasol ac ailadroddol lle caiff penderfyniadau eu gweithredu, eu hadolygu a’u mireinio gyda data newydd i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Bydd y dull hwn hefyd yn sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol sy’n gysylltiedig â physgota cregyn y brenin yn cael eu deall yn well a, lle bo’n briodol, bod camau’n cael eu cymryd i osgoi, i unioni neu i liniaru effeithiau o’r fath.

Mae dulliau tymor hirach arfaethedig yn cynnwys archwilio a datblygu mesurau rheoli allbwn sy’n seiliedig ar wyddoniaeth, a fyddai’n cyfyngu ar gyfran y stoc y gellir ei symud o’r bysgodfa, a mesurau rheoli mewnbwn a fyddai’n cyfyngu ar yr ymdrech bysgota a roddir ar y stociau. Caiff manteision ac anfanteision y mesurau rheoli mewnbwn ac allbwn eu hystyried i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu mesurau ar sail tystiolaeth i gefnogi pysgota cynaliadwy. Bydd hyn wedyn yn sail i ymgyngoriadau ar gynigion ar gyfer gweithredu mesurau rheoli newydd ar gyfer pysgodfeydd cregyn y brenin. Wrth archwilio’r fframweithiau rheoli, bydd y weithdrefn bresennol ar gyfer terfynau diwrnodau ar y môr yn cael ei hadolygu.

**Ydych chi’n cytuno â’r cynnig i archwilio a datblygu dull rheoli allbwn a/neu ddull rheoli mewnbwn sy’n seiliedig ar wyddoniaeth, ac a oes manteision ac anfanteision posibl (amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol) y dylid eu hystyried yn gynnar yn y broses?**

Bydd mesurau rheoli yn cael eu datblygu ar sail tystiolaeth gryfach a fydd yn deillio o’r camau gweithredu a nodir yn yr FMP hwn. Mae’r FMP yn gosod nodau clir ar gyfer rheoli pysgodfeydd cregyn y brenin yn y dyfodol. Bydd y cyfuniad o fesurau i gyflawni hyn a sut maen nhw’n cael eu blaenoriaethu a’u rhoi mewn trefn yn cael eu datblygu’n ailadroddol drwy fersiynau o’r FMP yn y dyfodol wrth i’r sylfaen dystiolaeth wella, a drwy ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ynghylch a yw’r FMP, fel y mae wedi’i ddrafftio, yn nodi’r camau gweithredu cychwynnol cywir i gyflawni ei nodau.

**A oes unrhyw fesurau rheoli ychwanegol y dylid eu hystyried i ddiogelu stociau cregyn y brenin a’r ecosystem ehangach, a pham?**

**A oes unrhyw fesurau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu’n gynnar yn unol â’r dull rhagofalus, a pham?**

## Gweithio tuag at ddull cydreoli

Mae Defra a Llywodraeth Cymru yn awyddus i barhau i ddatblygu’r dull cydweithredol gyda rhanddeiliaid allweddol i gefnogi’r gwaith o ddatblygu a gweithredu’r FMP hwn. Mae’r FMP hwn yn gam allweddol arall ar y daith tuag at ddull cydreoli. Mae’n nodi camau

gweithredu i ymchwilio i ddulliau cydreoli ar gyfer pysgodfeydd ac i archwilio sut gellir cymhwyso hyn i reoli cregyn bylchog.

**Ydych chi'n cytuno mai sefydlu dull cydreoli yw'r ffordd fwyaf effeithiol o reoli pysgodfeydd cregyn y brenin yn nyfroedd Cymru a Lloegr yn y dyfodol, a pham? Yn eich barn chi, pa rôl gallech chi/eich sefydliad ei chwarae i gefnogi dull cydreoli?**

## Rhoi ar waith

Ar ôl ei gyhoeddi'n ffurfiol, bydd angen rhoi'r cynllun ar waith. Bydd hon yn broses cam wrth gam a bydd Defra a Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda'r diwydiant i ddatblygu rhaglen weithredu fanylach, gan gynnwys amseroedd a cherrig milltir cyflawni. Byddwn yn ymgysylltu â'r holl randdeiliaid eto cyn cyflwyno unrhyw newidiadau neu fesurau newydd. Ni fydd y mesurau hyn yn cael eu cyflwyno wrth gyhoeddi'r FMP ond byddant yn cael eu rhoi ar waith drwy brosesau sy'n bodoli eisoes, fel is-ddeddfau a newidiadau i drwyddedau.

Dechrau proses aml-flwyddyn yw cyhoeddi'r FMP a bydd angen inni sicrhau bod y cynlluniau'n taro cydbwysedd rhwng adeiladu momentwm ar gyfer camau gweithredu tymor byr, a phennu cyfeiriad ar gyfer y tymor hirach y gellir ei ddatblygu ymhellach wrth i'r sylfaen dystiolaeth wella. Rhaid adolygu'r cynlluniau bob chwe blynedd ac ymgynghorir ar unrhyw ddiwygiadau a gynigir, fel y mae'r Ddeddf yn mynnu.

Un o brif nodau Defra a Llywodraeth Cymru oedd gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r FMPs cyntaf. Mae grwpiau sy'n cynnwys rheoleiddwyr, llywodraeth a chynrychiolwyr y diwydiant wedi bod yn rhan ganolog o'r gwaith o ddatblygu'r FMPs drafft, ac mae Defra a Llywodraeth Cymru am i gyfranogiad rhanddeiliaid barhau ar ôl cyhoeddi. Bydd cyflawni'r FMPs yn llwyddiannus yn dibynnu ar y cydweithio parhaus hwn gyda'r holl randdeiliaid.

**Sut hoffech chi fod yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r cynllun ac o reoli'r bysgodfa cregyn y brenin yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol?**

**A oes unrhyw gysylltiadau pwysig â physgodfeydd eraill y dylem eu hystyried wrth gwblhau'r FMP hwn neu yn ystod y broses o'i roi ar waith?**

## Casgliad

I grynhoi, mae'r FMP Cregyn y Brenin yn disgrifio mesurau rheoli sy'n bodoli eisoes a'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i asesu statws stociau cregyn y brenin yng Nghymru a Lloegr yn 2023, ac i bennu lefel ecsbloetiaeth gynaliadwy. Mae'r FMP yn tynnu sylw at fylchau o ran gwybodaeth a thystiolaeth er mwyn gallu sefydlu pysgodfeydd cregyn y brenin cynaliadwy. Mae'r amcanion rheoli a'r cynllun tystiolaeth ac ymchwil cysylltiedig yn arwain y rhai sy'n mynd ati i lenwi'r bylchau hynny dros amser. Nod yr ymyriadau rheoli arfaethedig yw defnyddio dull rhagofalus o reoli cynaeafu wrth i'n tystiolaeth wella. Nod yr FMP hwn ar gyfer cregyn y brenin yw arwain at newid sylweddol o ran ein symud tuag at

reoli pysgodfeydd cregyn y brenin yn gynaliadwy yn yr hirdymor yn nyfroedd Cymru a Lloegr.

# Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae'r gyfraith yn mynnu bod Defra a Llywodraeth Cymru yn ystyried effaith amgylcheddol polisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf yr Amgylchedd 2021 yn sefydlu fframweithiau i sicrhau bod rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau; mae Deddf yr Amgylchedd yn nodi egwyddorion amgylcheddol i ddylanwadu ar y broses o lunio polisïau. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol 2004) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynlluniau, rhaglenni a strategaethau cyhoeddus cymwys fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol wrth eu paratoi a chyn eu cyhoeddi os ydynt yn debygol o gael effaith sylweddol ar Safle Morol Ewropeaidd (naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol). Mae FMPs yn gynlluniau neu'n rhaglenni at ddibenion Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol 2004. Daeth Defra a Llywodraeth Cymru i'r casgliad fod yr FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol ac, felly, cynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae ein canlyniadau cychwynnol wedi'u cofnodi yn Adroddiad Amgylcheddol yr FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin, sydd wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad cyfredol. Caiff fersiwn terfynol ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r FMP Cregyn y Brenin, a fydd yn cael ei ddiwygio i ystyried sylwadau a/neu ragor o wybodaeth a ddarperir yn ystod yr ymgynghoriad, ac i adlewyrchu'r FMP terfynol a gyhoeddir.

## Beth yw'r Adroddiad Amgylcheddol a sut cafodd ei ddatblygu

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystyried yr effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol yn sgil gweithredu'r polisïau a'r camau gweithredu a nodir yn yr FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin. Mae'r Adroddiad Amgylcheddol yn nodi canfyddiadau'r broses hon. Mae'r adroddiad yn disgrifio cyflwr presennol yr amgylchedd (y llinell sylfaen) ac effeithiau sylweddol tebygol y cynigion yn yr FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin ar y llinell sylfaen. Mae'r asesiad yn nodi lle gallai'r FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin gael effaith gadarnhaol ar y llinell sylfaen, ac felly ar ein hamgylchedd morol. Lle gallai'r FMP gael effeithiau negyddol ar y llinell sylfaen, mae'r adroddiad yn awgrymu camau gweithredu i liniaru a/neu i fonitro'r effeithiau hyn.

Mae Defra a Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r Adroddiad Amgylcheddol ar gyfer yr FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin. Roedd cwmpas a lefel y manylion yn seiliedig ar ymgynghoriad cynnar â'n Cyrff Ymgynghori statudol: Natural England, Asiantaeth yr Amgylchedd, Historic England, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw, ynghyd â chyngor pellach gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur fel cynghorydd i Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar gadwraeth natur ledled y DU. Roeddem wedi defnyddio

gwybodaeth wedi'i chyhoeddi am gyflwr yr amgylchedd ac am effaith bosibl pysgota am gregyn bylchog ar nodweddion amgylcheddol.

## Crynodeb o Adroddiad Amgylcheddol Cregyn y Brenin

Mae Adroddiad Amgylcheddol Cregyn y Brenin wedi cael ei gynhyrchu yn unol â Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol 2004. Cafodd y materion canlynol (o Atodlen 2 paragraff 6 Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol 2004) eu cynnwys yn yr asesiad: Bioamrywiaeth, Ffawna, Fflora, Daeareg a gwaddodion (pridd), Dŵr, Ffactorau hinsoddol, Treftadaeth ddiwylliannol. Mae ein hadroddiad yn asesu effeithiau amgylcheddol posibl yr FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin ar y materion hyn.

Cynhaliwyd yr asesiad yn erbyn llinell sylfaen a oedd yn bennaf yn defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes ar gyflwr yr amgylchedd morol a nodwyd yn Rhan 1 o Strategaeth Forol y DU, a ddiweddarwyd yn 2019. Roeddem wedi defnyddio ffynonellau tystiolaeth ychwanegol i sefydlu statws yr amgylchedd mewn cysylltiad â ffactorau hinsoddol a threftadaeth ddiwylliannol nad ydynt yn dod o dan Strategaeth Forol y DU. Mae effaith hanesyddol gweithgarwch pysgota ar yr amgylchedd morol wedi cael ei hystyried yn rhan o'r llinell sylfaen. Mae'r asesiad wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddod i benderfyniad addas ynghylch effeithiau amgylcheddol yr FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin.

Mae effeithiau amgylcheddol presennol pysgota cregyn y brenin mewn cysylltiad ag Ardaloedd Morol Gwarchodedig a disgrifyddion Strategaeth Forol y DU o Statws Amgylcheddol Da ar gyfer yr amgylchedd morol ehangach, a ffactorau hinsoddol wedi cael eu cydnabod a'u hystyried yn yr adroddiad hwn. Mae effeithiau amgylcheddol cadarnhaol a negyddol posibl polisïau a mesurau arfaethedig yr FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin ar eu pen eu hunain, ac ar y cyd, wedi cael eu hasesu hefyd.

Daeth ein Hasesiad Amgylcheddol Strategol i'r casgliad fod y dystiolaeth sy'n bodoli eisoes yn dangos bod y bysgodfa cregyn y brenin yn effeithio ar yr amgylchedd morol yn bennaf drwy aflonyddwch ar wely'r môr. Caiff effaith pysgota cregyn bylchog mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig ei rheoli yn y parth 0-12nm yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Mae'r gwaith o reoli mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig y tu hwnt i'r terfyn 12nm yn cael ei roi ar waith. Mae angen gwneud rhagor o waith i leihau effaith pysgota cregyn bylchog ar gynefinoedd y tu hwnt i Ardaloedd Morol Gwarchodedig er mwyn sicrhau bod modd cyflawni targedau Statws Amgylcheddol Da ar gyfer cyfanrwydd gwely'r môr (D6). Nodwyd hefyd bod cyfraniad pysgota cregyn bylchog i faterion sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd a threftadaeth ddiwylliannol yn effaith bosibl. Mae'r FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin wedi ystyried yr effeithiau hyn ac mae'n nodi cynigion i fonitro a, lle bo angen, cyflwyno mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn.

**A oes unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gallem ei hystyried i lywio ein llinell sylfaen amgylcheddol?**

**A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill yn gysylltiedig â pholisïau a chamau gweithredu'r FMP drafft ar gyfer Cregyn y Brenin y gallem eu hystyried?**

**Oes gennych unrhyw sylwadau ar y camau gweithredu arfaethedig a nodir yn yr Adroddiad Amgylcheddol i fonitro a/neu liniaru unrhyw effeithiau sylweddol (negyddol) tebygol yr FMPs ar yr amgylchedd?**

**Oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol mewn cysylltiad â'r Adroddiad Amgylcheddol nad ydych wedi gallu eu darparu mewn ymateb i'r cwestiynau blaenorol?**

# Asesiadau Effaith Rheoleiddiol

Mae'r FMP Cregyn y Brenin yn gynllun ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith o reoli pysgodfeydd wedi'i ddatganoli a bydd awdurdodau pysgodfeydd cenedlaethol priodol yn bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu mesurau penodol fel y bo'n briodol. Bydd unrhyw asesiad o effeithiau mesurau penodol hefyd yn cael ei gwblhau gan yr awdurdod pysgodfeydd cenedlaethol perthnasol, yn unol â phrosesau asesu unigol pob awdurdod.

## Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith ar gyfer dull Llywodraeth Cymru o asesu effaith o fewn y saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal unrhyw asesiadau effaith angenrheidiol cyn i unrhyw fesurau gael eu rhoi ar waith. Bydd Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gynnal i alluogi Llywodraeth Cymru i gynnal asesiad cynhwysfawr o effaith cam gweithredu arfaethedig, gyda'r bwriad o sicrhau'r llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol gorau posibl, nid yn unig ar gyfer y presennol, ond ar gyfer y tymor hir. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 hefyd yn nodi blaenoriaethau cenedlaethol y mae'n rhaid eu hystyried fel rhan o broses yr Asesiad Effaith Integredig wrth lunio polisi newydd.

Os bydd mesurau newydd yn arwain at gyflwyno is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y cydymffurfir â gofynion Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth pan fyddant yn cael eu rhoi ar waith.

## Lloegr

Rydym yn cydnabod ein hymrwymiad i gydbwyso agweddau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pysgodfeydd cynaliadwy, ac rydym wedi ystyried canllawiau'r Fframwaith Rheoleiddio Gwell a'r egwyddorion rheoleiddio gwell o ran tystiolaeth gadarn, tryloywder a chymesuredd wrth baratoi FMPs. Mae Defra yn cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol i asesu effeithiau economaidd FMPs ar fusnesau a'r sector pysgota.

At ddibenion ymgynghoriad yr FMP Cregyn y Brenin, rydym wedi drafftio asesiad de minimis sy'n amlinellu ein rhesymeg a'n dull gweithredu ar gyfer asesu effaith bosibl y cynllun ar fusnesau. Mae'r asesiad hwn yn ddogfen ategol i'r ymgynghoriad presennol.

Er bod yr FMP Cregyn y Brenin yn nodi mesurau y gellid eu cyflwyno ar ôl yr ymgynghori, bydd y mesurau arfaethedig hyn yn cael eu datblygu ymhellach ac nid oes ganddynt ddigon o fanylion ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw ddadansoddiad economaidd. Gallai'r mesurau arfaethedig hyn fod yn rheoleiddiol neu'n ddadreoleiddiol gydag effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar fusnesau, felly nid yw'n bosibl amcangyfrif yr effeithiau economaidd ar hyn o bryd.

Pan fydd mesurau unigol yn cael eu rhoi ar waith yn benodol, bydd effeithiau'r mecanwaith statudol neu anstatudol a ddefnyddir i'w rhoi ar waith yn cael eu hasesu'n briodol.

# Sut mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn bennaf drwy borth ar-lein Citizen Space. Fodd bynnag, byddwn yn derbyn ymatebion drwy e-bost a chopïau caled gan y rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at yr arolwg ar-lein. Mae ffurflen ymateb i'w defnyddio ar gyfer ymatebion e-bost a chopi caled wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 y ddogfen hon, ac fel dogfen gysylltiedig ar wefan Citizen Space.

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn goch drwy'r ddogfen hon. Maen nhw ar y ffurflen ymateb a phorth Citizen Space hefyd. Darperir lle ar gyfer sylwadau cyffredinol hefyd.

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras a Braille.

## Hyd yr ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 17 Gorffennaf 2023 a bydd yn dod i ben ar 1 Hydref 2023. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw 23:59 ar 1 Hydref 2023.

## Ymatebion

Gellir cyflwyno ymatebion yn y ffyrdd canlynol:

- Cyflwyno drwy borth ar-lein Citizen Space: King Scallop Citizen Space porth ar-lein
- Anfon dros e-bost i: FMPconsultations@defra.gov.uk
- Anfon drwy'r post at:

Consultation - King Scallop FMP
FMP team – Marine and Fisheries
Seacole Building, 2 Marsham St
London
SW1P 4DF

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn crynhoi'r ymatebion ac yn rhoi'r crynodeb hwn ar wefannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

# Gwybodaeth am Gyfrinachedd a Diogelu Data

Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn: llyw.cymru/ymgyngoriadau a gov.uk/defra. Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Gall Defra a Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd heb eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat (ee cyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, ac ati).

Os byddwch yn ateb 'Ydw' i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw ran o'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro eich rhesymau dros gyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu i bartïon eraill yn unol â'r ddeddfwriaeth ar fynediad at wybodaeth (yn bennaf, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018). Mae gennym ymrwymiadau, yn bennaf o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion neu i'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol. Oherwydd hyn, byddai eich esboniad am ofyn am gyfrinachedd ar gyfer eich ymateb cyfan neu ran ohono yn ein helpu i gydbwyso'r ymrwymiadau hyn ar gyfer datgelu yn erbyn unrhyw ymrwymiad o ran cyfrinachedd. Os byddwn yn cael cais i gadw'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn gyfrinachol, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gyfrinachedd yn eich ymateb ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Os byddwch yn ateb 'Nac ydw' i'r cwestiwn sy'n gofyn a hoffech i unrhyw ran o'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd ond ni fydd eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat ar gael yn gyhoeddus.

Efallai y bydd adegau pan fydd Defra a Llywodraeth Cymru yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, â dadansoddwyr allanol. Mae hyn at ddibenion dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion yn unig.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet a gellir gweld y rhain yn: https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance.

Mae ein hysbysiad preifatrwydd yn cael ei lwytho i fyny fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori.

Neu e-bostio: consultation.coordinator@defra.gov.uk

## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Mae gan Defra a Llywodraeth Cymru ofyniad statudol i geisio barn y cyhoedd ar wahân ar yr FMP drafft a'i Adroddiad Amgylchedd cysylltiedig.

Mae pedair rhan i arolwg yr ymgynghoriad:

1. Manylion personol a chyfrinachedd (gofynnol)

2. Cwestiynau am Gynllun Rheoli Pysgodfa Cregyn y Brenin

3. Cwestiynau am Adroddiad Amgylcheddol Cynllun Rheoli Pysgodfa Cregyn y Brenin

4. Adborth ymgyngoreion ar yr Arolwg Ar-lein (gofynnol)

Chi sy'n dewis pa gwestiynau i'w hateb. Fodd bynnag, rhaid i bob ymatebydd lenwi'r adrannau 'Adborth gan yr Ymgynghorai ar yr Arolwg Ar-lein' a 'manylion personol a chyfrinachedd' cyn gallu cyflwyno eich ymateb i'r arolwg ar-lein.

Os oes gennych chi fuddiant gweithredol yn y ddwy ddogfen, mae Defra a Llywodraeth Cymru yn eich annog i lenwi rhannau 2 a 3 yn llawn.

## Ymholiadau

Os ydych am gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad, cysylltwch â: FMPconsultations@defra.gov.uk

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â: FMPs@defra.gov.uk

Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd ar gael yma: Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae'r Ddeddf ar gael yma: Deddf Pysgodfeydd 2020 (legislation.gov.uk)